GŴYL FACH Y FRO

17-05-2025



# ADRODDIAD GWERTHUSO

DATHLU 10 MLYNEDD
CELEBRATING 10 YEARS

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

# CEFNDIR

Gŵyl flynyddol i ddathlu'r iaith, celfyddydau a diwylliant Cymraeg yw Gŵyl Fach y Fro. Blwyddyn ar flwyddyn gwelir cynnydd yn y diddordeb a'r niferoedd sy'n mynychu. Mae'n benllanw gweithgareddau rheolaidd a gynhelir gydol y flwyddyn gan Fenter Iaith Bro Morgannwg, elusen sy'n hyrwyddo ac ehangu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.

**GWYL AM DDIM I DDATHLU'R GYMRAEG YN Y FRO**

**9,000 O YMWELWYR**

**15 PERFFORMIAD BYW AR LANFA GWYNFOR GAN YSGOLION A CHORAU CYMUNEDOL YR ARDAL**

**ARDAL CHWARAE ARBENNIG I BLANT**

**7 SET BYW AR LWYFAN Y TRAETH GAN ARTISTIAID AMLYCAF CYMRU A THALENTAU LLEOL**

**20 O STONDINAU CREFFTAU, BWYD A DIOD**

Bu'n ddiwrnod heulog braf a bythgofiadwy wrth ddathlu 10fed pen-blwydd yr Ŵyl ar Ynys y Barri.

Yn 2024, denwyd tua 7,500 o gynulleidfa ac eleni ar ddydd Sadwrn 17 Mai 2025 gwelwyd cynnydd yn y niferoedd ac amcangyfrif y daeth yn agos at 9,000 o ymwelwyr i Ynys y Barri i ddathlu'r Gymraeg; a mwynhau cyfres o berfformiadau gan rai o artistiaid amlycaf Cymru yn ogystal â thalent leol ar ein prif lwyfan. Cafwyd cymysgedd o gorau cymunedol ac ysgolion y Fro yn diddanu cynulleidfaoedd ar yr ail lwyfan. Roedd yr Ŵyl yn fwrlwm o weithgareddau arbennig i blant, perfformiadau comisiwn; a dros 20 o stondinau crefftau ac arlwyo bwyd a diod.



# YR ŴYL YN 2025

Prif ffocws yr Ŵyl i nifer yw Llwyfan y Traeth, ac eleni rhwng 11 y bore ac 8 yr hwyr gwelwyd 9 perfformiad byw - yn gymysgedd o ddawnsio gyda'r plant iau i berfformiad arbennig gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg gyda chast o gannoedd o blant ysgolion cynradd y Fro yn ymuno i ganu detholiad o ganeuon o'r sioe Les Misérables.

Dyma'r llwyfan ar gyfer rhai o brif artistiaid Cymru fel Bwncath, Gai Toms a Tara Bandito yn ogystal â chyfle i grwpiau sy'n prysur wneud enwau iddyn nhw eu hunain - Dagrau Tân, Cadog, Taran a Dadleoli.








I eraill, Glanfa Gwynfor yw'r atyniad lle gwelir cyfoeth o ysgolion y sir yn ogystal â chorau cymunedol yn perfformio gerbron y cannoedd ddaeth yn benodol i fwynhau'r arlwy.

YSGOL GYMRAEG SANT CURIG | CRIW CANU PENARTH | YSGOL GYMRAEG GWAUN Y NANT | ABC Y FRO | YSGOL GYMRAEG DEWI SANT | YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRO MORGANNWG | DAWNSWYR YSGOL UWCHRADD WHITMORE | YSGOL GYMRAEG PEN Y GARTH | YSGOL GYMRAEG SANT BARUC | YSGOL GYNRADD OAK FIELD | LLEISIAU'R FRO | YSGOL GYMRAEG IOLO MORGANWG | KITCH N SYNC A LO-FI JONES





# YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Eleni fel rhan o broses ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol trefnwyd cyfres o weithdai yn yr wythnosau'n arwain at yr Ŵyl. Roedd y rhain wedi eu llunio'n benodol i ddenu diddordeb ac i godi ymwybyddiaeth.

## Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol: Prosiect Celf Ysgolion

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Galluogodd ein cais llwyddiannus am grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i drefnu cyfres o weithdai gyda'r animeiddiwr profiadol, Lleucu Non yn arwain sesiynau creadigol gyda phlant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg.

Cynhaliwyd gweithdai mewn canolfannau yn Llanilltud Fawr, Penarth a'r Barri ym mis Ebrill a Mai gyda disgyblion oedran ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynrychioli'r ardaloedd hyn.

Y dasg ymhob gweithdy oedd creu delweddau hwyliog, hapus sy'n gysylltiedig gyda'r Barri a'r Fro gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau megis pensiliau lliw, paent a thecstilau. Ar ôl cwblhau'r sesiynau aeth Lleucu ymlaen i ddethol rhai o'r dyluniadau unigol a'u defnyddio i gynllunio delweddau cyfansawdd er mwyn creu 6 banner x 2 fetr o daldra; ac i'w harddangos a harddu ardal Llwyfan Gwynfor/Ardal Chwarae Plant.







Yn fwriadol cadwyd yn glir o gynnwys dyddiadau ar y gwaith celf terfynol fel y gellir defnyddio'r baneri yn flynyddol yn yr Ŵyl; neu eu defnyddio mewn digwyddiadau llai eu maint a gynhelir gan Fenter Iaith Bro Morgannwg mewn ysgolion a lleoliadau eraill gydol y flwyddyn.



# GWEITHIO YN Y GYMUNED/parhad

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

## Cefnogaeth y Cyngor Celfyddydau

Trwy gais grant llwyddiannus gyda'r Cyngor Celfyddydau gwireddwyd dau gynllun penodol - y naill yn cynnig cyfle i ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd i ddysgu sut mae paratoi a recordio podlediadau; a'r llall yn creu darn comisiwn arbennig gan artistiaid proffesiynol fyddai'n rhan ganolog o arlwy'r diwrnod yn yr Ŵyl.

## Creu Rhaglenni Radio / Podlediadau

Gwahoddwyd Steffan Huw Crocker, cyflwynydd radio profiadol a sylfaenydd Darlledu-Broadcasting i arwain cyfres o weithdai yn yr ysgolion yn yr wythnosau'n arwain at yr Ŵyl.





Bu'r sesiynau yn hynod lwyddiannus lle rhannwyd y disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn grwpiau er mwyn iddyn nhw ddewis pynciau o ddiddordeb ar gyfer y podlediadau – o drafod pêl-droed a hyrwyddo Ynys y Barri i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a hanes sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ystod y sesiynau bu cyfle i ymchwilio i'r cynnwys, paratoi ac ysgrifennu sgriptiau, recordio a golygu cyfres o gyfweliadau. Mae'n fwriad i rannu'r podlediadau yma ar sianel YouTube newydd Menter Iaith Bro Morgannwg pan fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Comisiynu Kitch n Sync / Lo-Fi Jones

Ail ran y nawdd a dderbyniwyd gan y Cyngor Celfyddydau oedd ein galluogi i gomisiynu prosiect dawns/cerddoriaeth newydd fyddai'n cael ei berfformio yn ystod yr Ŵyl. Roedd hwn hefyd yn brosiect ar y cyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol lle bydd cyfle pellach i weld y perfformiadau yn Wrecsam eleni.





Sail y comisiwn oedd adeiladu ar lwyddiant y prosiectau Qwerin a Kitsch N Sync yn y gorffennol ac eleni penderfynwyd cyfuno cerddoriaeth fyw wreiddiol gan y grŵp gwerin gyfoes Lo-Fi Jones gyda Kitsch n Sync, artistiaid sydd â record o ddatblygu prosiectau dawns gymunedol gyffrous yn arbennig mewn nifer o wyliau cenedlaethol ac sy'n arbenigo ar gyfuno elfennau o theatr stryd, dawns a cherddoriaeth.

Clustnodwyd 3 slot ar lwyfan Glanfa Gwynfor ar gyfer y perfformiadau yn ystod y diwrnod gyda chynulleidfaoedd yn mwynhau'r dehongliadau lliwgar, hwyliog a beiddgar.

# ARDAL CHWARAEON/PLANT

Eleni clustnodwyd yr ardal chwarae i blant rhwng Glanfa Gwynfor a'r stondinau masnachol er mwyn ein galluogi i gynnig opsiynau amrywiol o weithgarwch, a chadw gwell rheolaeth o'i gymharu a defnyddio rhan o'r traeth fel y gwnaed yn y gorffennol. Bu'n ardal hynod brysur wrth i gannoedd o blant ymuno yn y gweithgareddau amrywiol. Ar gyfer 2026, byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth gyda'r bwriad o wella'r profiad a'r amrywiaeth.







## Stondinau

Y tu hwnt i'r gerddoriaeth, roedd cyfle i flasu amrywiaeth o gynnyrch gwerthwyr bwyd stryd leol, yn gweini blasau traddodiadol a chyfoes Cymru; a chrefftwyr a gweithwyr llawrydd annibynnol yn cynnig nwyddau wedi'u gwneud â llaw, gan wneud Gŵyl Fach y Fro yn wledd i'r glust, y llygad a'r tafod.

BAR STEDMAN BROTHERS | BOX BURGER | CEGIN HALF & HALF | COLEG CAERDYDD A'R FRO | CYNGOR TREF Y BARRI | CANT A MIL | CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG | DILLAD GWALIA CLOTHING | DYSGU CYMRAEG Y FRO | EISTEDDFOD PONTYPRIDD | FABLAS ICE CREAM | FLOUR'D UP PIZZA | GM NOTEBOOKS | HOGI HOGI HOGI | MENTER IAITH BRO MORGANNWG | MUDIAD YSGOLION MEITHRIN | POPTY CREATIONS | PORECELAIN JEWELLERY | RSPB | URDD GOBAITH CYMRU














# CYFATHREBU

Defnyddiwyd sawl cyfrwng i godi proffil ac i hyrwyddo'r Ŵyl yn cynnwys baneri wedi eu gosod o amgylch Ynys y Barri ac mewn llefydd amlwg eraill gan gynnwys ynghanol y dref a ffensys ysgolion. Dosbarthwyd posteri a thaflenni cyhoeddusrwydd mewn ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus.










## Datganiadau i'r Wasg

Ryddhawyd datganiadau annibynnol gan Fenter Iaith Bro Morgannwg, Cyngor Tref y Barri a Choleg Caerdydd a'r Fro yn pwysleisio'r bartneriaeth strategol a mantais. Mantais ryddhau'n annibynnol oedd i geisio lledaenu'r neges yn fwy effeithio ymhlith ein rhanddeiliaid unigryw.

## Sylw ar gyfryngau torfol yn cynnwys


- S4C - eitem rhagbaratoi wedi ei recordio ar Ynys y Barri gan Prynhawn Da
- S4C – item wedi recordio ar gyfer Newyddion S4C
- BBC Radio Cymru - hysbysebion a sylw cyson ar BBC Radio Cymru
- Rhestr Dewis BBC Radio Cymru 2
- Lluniau Uchafbwyntiau ar BBC Cymru Fyw
- Erthygl a lluniau Glamorgan Star












# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL


Mae cyfryngau cymdeithasol bellach wedi hen ennill eu plwyf fel arf cyfathrebu effeithiol ar gyfer targedu, ac yn ddull cost effeithiol o hyrwyddo.  Fel Menter mae lle i gynyddu nifer ein dilynwyr ar Facebook ac Instagram dros y flwyddyn sydd i ddod yn ogystal ag adolygu pa blatfformau sydd fwyaf effeithiol i ymwneud â chynulleidfaoedd penodol.


Ar hyn o bryd mae Facebook yn perfformio fymryn yn well na Instagram i ni; ond gwelir wrth edrych ar ganlyniadau cyfryngau'r Fenter yn unig (mae cyfrif ar wahân ar gael i Ŵyl Fach y Fro) rhwng dechrau Ebrill hyd at yr Ŵyl, y bu cynnydd aruthrol ar draws pob mesur mewnweliadau (insights) Meta.

Dros benwythnos yr Ŵyl cyflogwyd person ymroddedig i ofalu am gyfrif Gŵyl Fach y Fro er mwyn hyrwyddo ac ymateb i sylwadau.

## Canlyniadau Facebook









## Canlyniadau Instagram









# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL/ parhad

## Amserlenni'r ymgyrch

Lluniwyd yr ymgyrch eleni ar Facebook ac Instagram y Fenter, gyda mwyafrif y negeseuon hefyd yn cael eu rhannu ar gyfrif Gŵyl Fach y Fro hefyd.

| | |
|---|---|
| Ebrill 7fed | Hysbyseb fideo 40" "Croeso i'r Barri" (clipiau uchafbwyntiau 2024) |
| Ebrill 10fed | Lluniau/stori Gweithdy Podlediadau Ysgol Gwaun y Nant |
| Ebrill 11eg | Lluniau/stori Gweithdy Podlediadau Ysgol Iolo Morganwg |
| Ebrill 12fed | Cyfle ola i wneud cais am stondin |
| Ebrill 16eg | Hysbyseb fideo yn cynnwys clipiau o berfformwyr Llwyfan y Traeth eleni (17,211 o "views", cyrraedd 13,619) |
| Mai 3ydd | Fideo "darn i gamera" Lo-Fi Jones/hyrwyddo perfformiadau gyda Kitch N Sync |
| Mai 8fed | Rhag hysbys gyda line-up a rhagolygon y tywydd |
| Mai 9fed | Hysbys cyffredinol yn nodi "dathlu 10 mlynedd" |
| Mai 10fed | Diweddariad o lein-yp Llwyfan y Traeth, Glanfa Gwynfor a Rhestr Stondinwyr |
| Mai 11eg | Llun: hysbyseb stondinwyr (fideo) |
| Mai 12fed | Hysbyseb amserlen Llwyfan y Traeth a Glanfa Gwynfor |
| Mai13eg | Bore - Fideo/darn i gamera Bwncath; Nos - Stondinwyr |
| Mai 14eg | Bore - Fideo/cyffredinol Bandiau Llwyfan y Traeth / Prynhawn – darn i gamera Tara Bandito / Nos - Gwybodaeth cyrraedd Ynys y Barri |
| Mai 16eg | Diolch noddwyr |
| Mai 17eg | Diolch i bawb |

## Partneriaid

Gwireddwyd y digwyddiad eleni diolch i nawdd hael gan ein Prif Bartner - Coleg Caerdydd a'r Fro a'n Prif Noddwr - Cyngor Tref y Barri. Mae cefnogaeth pellach i brosiectau celf yr ŵyl wedi dod gan Gyngor y Fro, y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru a phob un yn tanlinellu'r ymrwymiad i feithrin treftadaeth a diwylliant Cymraeg Bro Morgannwg.

PRIF NODDWR

CYNGOR TREF Y BARRI
BARRY TOWN COUNCIL

PRIF BARTNER

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PARTNERIAID/ parhad

## Agor yr Ŵyl

Trefnwyd seremoni syml i agor yr Ŵyl eleni gan yng nghwmni'r Cynghorydd Dennis Clarke, Maer Cyngor Tref y Barri; a bu cyfle i Gadeirydd Llywodraethwyr Coleg Caerdydd a'r Fro, Geraint Evans, dorri cacen arbennig i nodi achlysur dathlu degfed pen-blwydd Gŵyl Fach y Fro.







Dywedodd Pennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro, Sharon James-Evans:

*"Rydym yn credu mewn partneriaethu er mwyn meithrin cyfleoedd a bod o fudd i'r ardal. Trwy gydweithio â Gŵyl Fach y Fro rydym yn gobeithio darparu awyrgylch croesawgar sy'n apelio nid yn unig at y gymuned iaith Gymraeg ond hefyd at y rhai sy'n dymuno ymgysylltu â'r iaith Gymraeg am y tro cyntaf."*








Dywedodd y Cynghorydd Bronwen Brooks, Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant:

*"Rwy'n falch bod Cyngor Tref y Barri yn cefnogi Gŵyl Fach y Fro eleni. Mae hwn yn ddigwyddiad allweddol yng nghalendr blynyddol ein tref sy'n dathlu popeth Cymreig ac yn dod â mwy o ymwelwyr i Ynys y Barri. Diolch i gefnogaeth y Cyngor a phartneriaid eraill, mae'n parhau i fod yn rhad ac am ddim i fynychu."*



# PIGION

## Her canu gyda hoff artist

Derbyniodd sawl ysgol yr her i ddysgu cân “Drw’r Nos” gan Tara Bandito a “Barti Ddu” gan Bwncath er mwyn medru cyd-ganu o’r gynulleidfa yn ystod perfformiadau’r artistiaid poblogaidd yma. Aeth Ysgol Iolo Morganwg gam ymhellach ac ymarfer symudiadau dawnsio, a nifer o’r disgyblion yn gwisgo fel morladron yn ystod perfformiad Bwncath.  Roedd yr artistiaid eu hunain wrth eu boddau ac wedi cyfeirio at yr ysgolion wrth gyflwyno’r caneuon yma. Mae’n enghraifft lle gall Gŵyl Fach y Fro ysbrydoli cymunedau a dal dychymyg yn yr wythnosau cyn ac yn ystod yr Ŵyl.



## Prosiect Ysgol Bro Morgannwg - Les Misérables

Eleni cyflwynwyd perfformiad o gôr cymunedol yn cynrychioli mwyafrif ysgolion Cymraeg y Fro dan arweiniad Catrin Williams, Pennaeth Cerdd Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg.  Yn ganolog i’r detholiad o ganeuon o sioe Les Misérables oedd unawdwyr a chôr yr Ysgol, ac ymunodd dros 100 o blant ysgolion cynradd y Fro i gyd-ganu rhai o anthemau cofiadwy’r sioe gerdd.

Roedd ymateb y gynulleidfa a’r perfformwyr fel ei gilydd yn hynod, a dyma’r math o gynllun y byddwn yn ei wyntyllu ar gyfer 2026, gan ei fod yn cyd-fynd yn berffaith a bod yn gynhwysol, yn codi hyder yn y Gymraeg ac yn denu diddordeb yn eang.













# DIOLCHIADAU

## Cyflwynwyr a chyfranwyr

Mae ein diolch yn ddiffuant i Angharad Rhiannon am arwain Llwyfan y Traeth (yn ogystal â'i eitemau cyson yn cyfeirio at yr Ŵyl ar ei rhaglen ar Bro Radio). Yn ardal Glanfa Gwynfor roedd Rhys Angell Jones, Gwenllian Grigg a Bethan Knox yn arwain yn gelfydd; ac mae ein diolch hefyd i Owain Rhys a'r Sparklettes am ddod â lliw a hwyl i ganol y dorf.


Diolch i'r holl wirfoddolwyr am helpu cadw trefn yma a thraw gydol y dydd, staff yr holl ysgolion am eu cefnogaeth, staff Menter Iaith Bro Morgannwg a Menter Caerdydd am eu brwdfrydedd ac am weithio y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol, i Gyngor Bro Morgannwg am eu parodrwydd i rannu strwythurau stondinau, i Mei Lewis am gofnodi'r diwrnod gyda'i gamera, i 2Can Productions am gyd-lunio'r holl elfennau technegol a diogelwch gan sicrhau bod pawb yn medru mwynhau eu hunain gydol yr Ŵyl. A DIOLCH ENFAWR i bawb ymunodd â ni ar Ynys y Barri.











*"Da iawn Menter Bro am drefnu gŵyl lwyddiannus arall eleni! Diolch yn fawr i chi gyd! O'dd hi'n ddiwrnod gwych!!"*
Helen Mai Glanville ar Facebook.

*"It was fantastic as always. Big thumbs up and love to whole team for organising such a beautiful event".* Kuldeep Singh, arlwyo.

*"Mi roedd yn ddiwrnod gwych ac felly llongyfarchiadau enfawr".*
Rhys Angell Jones, Pennaeth Ysgol Bro Morgannwg.

*"Y Band a finnau wedi mwynhau yn arw!".*
Gai Toms, cerddor

*"Roedd yr ŵyl yn llawer o hwyl eleni! Roedd y nifer a ddaeth yn llawer gwell na'r llynedd ac roeddem yn teimlo'n wirioneddol fel bod y plant wedi ymgysylltu".*
Sian, Do Re Mi

## Crynhoi

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesa, mae'n anorfod y byddwn yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant eleni. Byddwn yn adolygu pob elfen o'r gweithgareddau - y cynnwys artistig, y cyfleoedd i ryngweithio'n hyderus a chynhwysol yn y cyfnod yn arwain at yr Ŵyl, a thrafod yn adeiladol ac yn greadigol gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliad er mwyn medru cynnig y parti mwyaf yn 2026 i ddathlu'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

MENTER IAITH BRO MORGANNWG, YR HEN LYFRGELL, YR AIS, CAERDYDD, CF10 1BH
Rhif Elusen: 1179555
Rhif Cwmni: 08867706